monmouthshire
sir fynwy

**PENDERFYNIADIAU AELOD CABINET UNIGOL**
**COFNOD PENDERFYNIADAU**

**DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 8 Mawrth 2017**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Dydd Gwener, 17 Mawrth 2017**
*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

| Eitem Rhif | Teitl | Diben, Ymgynghoriad ac Awdur | Datganiad Diddordeb | Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|
| **1** | Trefniadau Arweinyddiaeth Gofal Uniongyrchol | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Cymeradwyodd Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd y strwythur a fanylir yn Atodiad 1 (dangosir newidiadau mewn glas golau) i gefnogi'r strwythur a fanylir yn Atodiad 2. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **2** | Gwneud Gorchmynion Diogelu Gofodau Cyhoeddus i drin Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Cymeradwyo gwneud Gorchmynion Diogelu Gofodau Cyhoeddus yng nghyswllt Maes Parcio Fairfield a'r Parc Sglefrio yn y Fenni, Sir Fynwy. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3** | Strategaeth Cyfrifon Taladwy - Awtomeiddio'r weithdrefn ymhellach i brosesu taliadau. | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Cytuno ar y strategaeth arfaethedig ar gyfer Cyfrifon Taladwy a fanylir yn Atodiad A.<br>Gweithredu meddalwedd Proactis a'i chyllido gan fuddsoddiad unigol o £22,500.<br>Bod y costau trafodion blynyddol yn gysylltiedig gyda Proactis yn cael eu hariannu drwy ddal swydd wag o 1 Swyddog Cymorth System Ariannol FTE ar agor. I'w adolygu ar ôl cyfnod o 3 blynedd ar adnewyddu'r contract.<br>Gweithredu meddalwedd E-gaffael Basware a'i gyllido gan fuddsoddiad unigol o £24,000.<br>Bod y ffynonellau cyllid a ddynodir yn ael ei gario ymlaen dros ddiwedd y flwyddyn i alluogi cwblhau'r prosiect fel y bwriedir. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **4** | Polisi Cymorth Cludiant Gofal Cymdeithasol Oedolion | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Ystyriodd aelodau a chytuno ar weithredu'r polisi a atodir. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **5** | Cronfa Wrth Gefn Diogelu Atal Digartrefedd | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Cytunwyd sefydlu Cronfa Wrth Gefn Atal Digartrefedd. |
| **Additional Information:** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **6** | Priodoli Tir yn Fferm Rockfield, Gwndy | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Penderfynu priodoli tir yn Fferm Rockfield, Gwndy (a ddangosir gydag ymyl goch ar y cynllun) ar gyfer dibenion Cynllunio yn dilyn Adran 122 Deddf Llywodraeth Leol 1972. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **7** | Gorfodaeth Tai - Deddf Tai 2004 (Rhannau 1 a 2) a Deddf Tai (Cymru) 2014 (Rhan 1) | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Cytunwyd ar y newidiadau arfaethedig i'r polisi ar gyfer trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth a mabwysiadu' 'Polisi ar gyfer Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth' , dyddiedig Chwefror 2017, fel y nodir yn Atodiad 1.<br><br>Cytunwyd ar y rhestr o ffioedd arfaethedig a nodir yn Atodiad 2 yn ymwneud â chymryd rhai mathau o weithredu gorfodaeth cysylltiedig â thai a thrwyddedu tai amlfeddiannaeth dan ddarpariaethau Deddf Tai 2004 (rhannau 1 a 2) yn amodol ar adolygiad gan aelodau fel rhan o'r diwygiad blynyddol o ffioedd a chostau.<br><br>Nodwyd rôl yr Awdurdod wrth weithredu a gorfodaeth gofynion Rhentu Doeth Cymru Deddf Tai (Cymru) 2014 Rhan 1, fel y'u nodir yn Atodiad 3. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **8** | Dyfodol Sir Fynwy/Amgueddfeydd Sir Fynwy: Canoli Strwythur Staffio | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Cymeradwywyd gweithredu strwythur uwch dîm canolog newydd (a fanylir yn Atodiad Dau) a'r Disgrifiadau Swydd (Atodiad Tri). |
| **Additional Information:** | | | | |
| **9** | Cynyddu Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth gan Wasanaethau Plant Cyngor Sir Fynwy | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Bod yr Aelod Cabinet yn cymeradwyo'r dull gweithredu a gynhwysir o fewn yr adroddiad a:<br>Bod talu lwfansau maethu yn cael ei symleiddio yn dilyn cyfraddau cyfunol fel y caiff taliadau unigol blynyddol eu cynnwys yn y lwfans wythnosol, gan felly ostwng biwrocratiaeth.<br>Telir isafswm ffi o £50 yr wythnos i ofalwyr maeth cyffredinol newydd fel bod taliadau Cyngor Sir Fynwy yn nes at awdurdodau eraill Gwent.<br>Bod Cyngor Sir Fynwy yn buddsoddi mewn ymgyrch marchnata i ddenu gofalwyr maeth newydd.<br>Bod Cyngor Sir Fynwy yn cymryd rhan lawn mewn prosiectau i ddatblygu dull rhanbarthol i wasanaethau maethu ledled Gwent ac o fewn cyd-destun Fframwaith Maethu Cenedlaethol Cymru. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **10** | Gwaredu â Thir ger 'The Studio', Garden City Way, Cas-gwent am lai na'r ystyriaeth orau er mwyn galluogi datblygu tai fforddiadwy. | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Bod tir sy'n ffurfio rhannau o rifau teitl P40872 a P43276 y Gofrestrfa Tir yn cael ei waredu i Cartrefi Melin.<br>Bod cyfamod yn cael ei osod ar y tir yn cyfyngu ei ddefnydd i ddarparu mynediad i dai fforddiadwy. |
| **Additional Information:** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **11** | Newidiadau i'r Polisïau Prisio Mynwentydd | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Bod y Cyngor yn dileu ei gostau claddu ar gyfer beddi un dyfnder ar gyfer plant hyd at ac yn cynnwys 17 oed. Pe byddai'r teulu yn gofyn am fedd dyfnder trebl neu ddwbl, caiff y gost ei dyrannu fel yr amlinellir yn Atodiad 1. Bydd angen yn parhau i deuluoedd sicrhau Hawl Ecsliwsif i Gladdu os ydynt yn dymuno dangos carreg fedd.<br>Caiff y costau am ddatgladdiad ei gynyddu i £250 ar gyfer gweddillion a amlosgwyd. Codir ffi ar sail unigol ar eirch llawn i'w benderfynu gan yr union gostau, gydag isafswm ffi o £500.<br>Lle mae arch a gaiff ei chladdu yn fwy na 28 modfedd o led, bydd angen prynu llain ddwbl.<br>Cynyddodd ffioedd ecsliwsif Hawl i Brynu i £450 am gyhoeddi newydd. Lle cynigir trosglwyddo bydd angen i'r rhai sy'n gofyn am y trosglwyddo lenwi Datganiad Statudol a thalu ffi o £400. Bydd angen cwblhau'r broses cyn y gladdedigaeth.<br>Bod y ffioedd a ddiwygiwyd eu cytuno fel y'u hamlinellir yn Atodiad 1. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **12** | Adroddiad Bws Cae Meldon ICMD - Cyllid Adran 106 - Llwybrau Bws 3 ac X4 | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Cymeradwyo £56,000 o gyllid Adran 106 i'w ryddhau i gefnogi'r gwasanaeth llwybr 3 erbyn 31 Mawrth 2026 fan bellaf.<br>Disgwylir y caiff tua £7,000 o'r cyllid ei ddefnyddio yn 2016/17 gan fod costau ychwanegol ar lwybr contract 3 oherwydd milltiroedd ychwanegol a achosir oherwydd newid y llwybr oherwydd gwaith ffordd yr A465. Mae'r gweddill yn debygol o gael ei ddefnyddio dros y 3-4 blynedd nesaf. |
| **Additional Information:** | | | | |
| | | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | |